# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 11 Ionawr 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 42(v2)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(30 munud)

**NDM6195** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi datganiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ym mis Tachwedd 2016 ar barodrwydd ar gyfer y gaeaf.

2. Yn nodi ymhellach ymateb Coleg Brenhinol y Meddygon i'r ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17, sy'n nodi: "Mae'r sialensiau sy'n wynebu byrddau iechyd wrth iddynt baratoi am y gaeaf yn gymhleth. Maent yn adlewyrchu'r pwysau ehangach ar y GIG ac ar ofal cymdeithasol", ac; "Mae byrddau iechyd yn gweithio mewn cyd-destun o ddiffyg cyllid, diffyg meddygon a cheisio ei dal hi ymhob man."

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu adroddiad statws o ran sut y mae ei chynlluniau ar gyfer 2016/17, ynghyd â chynlluniau Byrddau Iechyd Cymru, yn perfformio o gymharu â'r sefyllfa bresennol ledled GIG Cymru.

'Datganiad: Parodrwydd ar gyfer y gaeaf'

'Ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17: Ymateb Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg):

Dileu popeth ar ôl "pwysau ehangach ar y GIG ac ar ofal cymdeithasol" ym mhwynt 2 a rhoi yn ei le:

3. Yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru'n buddsoddi mwy nag erioed yn y GIG i ateb y galw cynyddol, yn arbennig yn ystod misoedd y gaeaf.

4. Yn cofnodi ei gefnogaeth i'r GIG a'r staff gofal cymdeithasol sydd wedi gweithio'n galed tu hwnt dros y gaeaf i sicrhau triniaeth a gofal o'r radd flaenaf i gleifion.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu adroddiad statws ar berfformiad cynlluniau Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru 2016/17 yn erbyn y sefyllfa bresennol ar draws GIG Cymru.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 3, yn cael ei dad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2, ac ailrifo yn unol â hynny:

"Yn nodi bod gwasanaethau gofal cymdeithasol, hefyd, yn gweithredu mewn cyd-destun o ddiffyg cyllid a cheisio ei dal hi ym mhob man, a bod y gwasanaethau hyn hefyd yn elfen bwysig o barodrwydd ar gyfer y gaeaf."

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ym mhwynt 3, ar ôl "Byrddau Iechyd Cymru", rhoi "a gwasanaethau gofal cymdeithasol".

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(30 munud)

**NDM6196** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi, yng ngoleuni Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth Gordewdra, bod lefelau gordewdra yng Nghymru ar gynnydd.

2. Yn mynegi pryder bod cymaint â 59 y cant o oedolion wedi cael eu cofnodi i fod dros eu pwysau neu'n ordew, fel y nodwyd yn yr Arolwg Iechyd Cymru diweddar, a bod 27.3 y cant o blant yng Nghymru yn ordew neu dros eu pwysau, fel y cofnodir yn Rhaglen Mesur Plant Cymru: Adroddiad Blynyddol Presennol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r diffyg cydlyniant rhwng ei mentrau iechyd cyhoeddus, a thoriadau i gyllid llywodraeth leol, sy'n rhwystro defnydd effeithiol o'r rhaglenni hyn.

'Arolwg Iechyd Cymru'

'Rhaglen Mesur Plant Cymru: Adroddiad Blynyddol Presennol'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg):

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi:

a) a hithau'n Wythnos Ymwybyddiaeth Genedlaethol Gordewdra, mai ychydig o newid sydd wedi bod yn nifer yr oedolion sydd dros eu pwysau neu'n ordew yng Nghymru ers 2012 - ond ein bod am weld y niferoedd hynny'n gostwng;

b) bod yr Arolwg Iechyd Cymru diweddaraf yn dangos bod 59 y cant o oedolion yn cael eu cyfrif yn rhai sydd dros eu pwysau neu'n ordew, a bod Adroddiad Blynyddol Presennol Rhaglen Mesur Plant Cymru yn cofnodi bod 26.2 y cant o blant dros eu pwysau neu'n ordew; ac

c) bod Llywodraeth Cymru'n parhau i fuddsoddi ar draws pob maes portffolio - gan gynnwys drwy GIG Cymru, addysg, chwaraeon a llywodraeth leol - i helpu pobl Cymru i fyw bywydau iach.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2, yn cael ei dad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2, ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod trethi ar gynnyrch afiach a rheolau'n ymwneud â hysbysebu cynnyrch o'r fath yn faterion nad ydynt wedi'u datganoli, ac yn gresynu bod llywodraethau dilynol y DU wedi methu â defnyddio'r pwerau hyn i fynd i'r afael â gordewdra.

## 7 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6198** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pa mor bwysig yw sector addysg uwch Cymru o ran cynnig cyfleoedd pwysig i bobl Cymru, a sicrhau manteision economaidd sylweddol i gymunedau ar hyd a lled y wlad.

2. Yn credu bod sector addysg uwch llwyddiannus a bywiog yn hanfodol ar gyfer Cymru ffyniannus.

3. Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru wneud popeth sydd ei angen i ddiogelu cynaliadwyedd sector addysg uwch Cymru ar gyfer y dyfodol.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i:

a) diogelu cyllid a rhaglenni presennol yr UE ar gyfer ymchwil ac addysg uwch neu ddarparu cyllid a rhaglenni yn eu lle;

b) sicrhau bod prifysgolion Cymru yn parhau i gymryd rhan yng nghynllun cyfnewid staff a myfyrwyr Erasmus+, a chefnogi rhagor o gydweithio rhyngwladol a chyfnewid o ran myfyrwyr, ymchwilwyr a staff;

c) sicrhau statws fisa a dinasyddiaeth gwladolion yr UE sy'n gweithio ym mhrifysgolion Cymru;

d) galluogi prifysgolion Cymru i gymryd rhan mewn cynllun fisa i weithio ar ôl astudio; ac

e) dileu myfyrwyr rhyngwladol o dargedau mudo net y DU.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Ym mhwynt 4, dileu is-bwyntiau a), b), c) a d) a rhoi yn eu lle:

'a) manteisio i'r eithaf ar ffynonellau rhyngwladol o ran cyllid ymchwil ar gyfer prifysgolion Cymru;

b) cefnogi mentrau cydweithredu sy'n cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr, ymchwilwyr a staff prifysgolion Cymru ymgysylltu â rhaglenni cyfnewid rhyngwladol;

c) archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu trefniadau dwyochrog â'r UE i fynd i'r afael â phryderon ynghylch statws gwladolion yr UE sy'n gweithio mewn prifysgolion yng Nghymru;

d) parhau i gynnig cyfleoedd i raddedigion rhyngwladol gael fisas ar ôl eu hastudiaethau i'w galluogi i weithio a sefydlu busnesau yn y DU;’

## 8 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM6197** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu ymweliad y Prif Weinidog â Norwy i ganfod ffeithiau a gweld drosto'i hun beth yw'r beichiau a'r costau rheoleiddiol a osodir ar Norwy yn sgil aelodaeth lawn o Farchnad Sengl yr UE.

2. Yn nodi bod y beichiau a'r costau hyn yn berthnasol i holl fusnesau Norwy, pa un a ydynt yn allforio i'r UE ai peidio.

3. Yn credu:

a) mai er budd gorau Cymru y caiff deddfau a rheoliadau eu gwneud gan gynrychiolwyr Prydain sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd yn San Steffan a Chaerdydd, yn hytrach na chan swyddogion pell ym Mrwsel, nad ydynt yn atebol i neb; a

b) byddai aelodaeth o'r Farchnad Sengl yn gwahardd rheolaeth effeithiol o ran mewnfudo dinasyddion yr UE i'r DU, ac yn tanseilio canlyniad y refferendwm a difetha dymuniadau'r rhan fwyaf o bleidleiswyr Cymru.

4. Yn nodi, bod yr UE yn allforio £8 biliwn yn fwy mewn nwyddau i'r DU bob mis nag y mae'r DU yn ei allforio i'r UE.

5. Yn cefnogi safbwynt negodi cyffredinol Llywodraeth y DU o geisio am yr uchafswm posibl o ran masnach rydd â'r UE, yn unol â rheolaeth fewnfudo gadarn.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro):]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn croesawu bwriad Prif Weinidog y DU i adeiladu perthynas rymus newydd â'r Undeb Ewropeaidd, sy'n gweithio i'r Deyrnas Unedig ac i Gymru.

2. Yn cydnabod pwysigrwydd masnachu ag Ewrop a gweddill y byd, sy'n hanfodol i ddyfodol economi Cymru.

3. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i sicrhau perthynas fasnachu gref sy'n rhoi rhyddid i gwmnïau Prydain fasnachu a gweithredu yn y Farchnad Sengl ac y dylai trefniadau cyfatebol gael eu cynnig i fusnesau'r UE sy'n masnachu ac yn gweithredu yn y DU.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2, yn cael ei dad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn croesawu ymweliad y Prif Weinidog â Norwy.

2. Yn nodi bod Norwy yn aelod o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi mynediad llawn a dilyffethair i'r Farchnad Sengl Ewropeaidd, drwy aelodaeth o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a/neu'r Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6199** Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

O'r golwg yng ngolwg pawb: unigrwydd yng nghymunedau Cymru, a beth i'w wneud amdano

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 4 Ionawr 2017 i'w hateb ar 11 Ionawr 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

**1.** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wariant cyfalaf sydd wedi'i gynllunio yn ystod tymor y Cynulliad hwn? OAQ(5)0077(FLG)

**2.** Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Ai polisi Llywodraeth Cymru yw cefnogi rhaglen beilot a gaiff ei harwain gan awdurdod lleol o ran incwm sylfaenol cyffredinol? OAQ(5)0072(FLG)

**3.** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o ddatblygu trysorlys Cymreig? OAQ(5)0078(FLG)**W**

**4.** Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y dyraniad cyllideb i bortffolio'r amgylchedd? OAQ(5)0075(FLG)

**5.** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Pa gynlluniau sydd gan Ysgrifennydd y Cabinet i hyrwyddo arfer gorau mewn llywodraeth leol? OAQ(5)0070(FLG)

**6.** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy awdurdodau lleol? OAQ(5)0073(FLG)

**7.** Mark Reckless (Dwyrain De Cymru):
A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu beth y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei gyfrannu at Fargeinion Dinesig? OAQ(5)0067(FLG)

**8.** Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael ynghylch y dyraniad yn y gyllideb i'r portffolio addysg? OAQ(5)0082(FLG)

**9.** Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei phwerau trethu i gefnogi busnesau bach yng Nghymru? OAQ(5)0081(FLG)

**10.** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ei ddisgwyliadau o ran cydweithio i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cysylltiedig o fewn dinas-ranbarth Bae Abertawe? OAQ(5)0080(FLG)

**11.** David Rees (Aberafan): Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ag awdurdodau lleol ynghylch costau claddu plant? OAQ(5)0068(FLG)

**12.** Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad o ran pa mor bwysig yw mynediad y cyhoedd at gyfarfodydd llawn cynghorau a chyfarfodydd cabinet awdurdodau lleol? OAQ(5)0071(FLG)

**13.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am Buddsoddi i Arbed? OAQ(5)0066(FLG)

**14.** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o drefnu a chyflenwi gwasanaethau llywodraeth leol yn rhanbarthol? OAQ(5)076(FLG)

**15.** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gyllid ychwanegol a ddyrannwyd i'r portffolio addysg i gefnogi clybiau cinio a chlybiau hwyl yn ystod gwyliau haf yr ysgolion? OAQ(5)0069(FLG)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**1.** Jeremy Miles (Castell-nedd): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i alluogi disgyblion i gael dealltwriaeth lawnach o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ym myd gwaith? OAQ(5)0072(EDU)

**2.** Vikki Howells (Cwm Cynon): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gefnogi clybiau cinio a chlybiau hwyl mewn ysgolion cynradd yn ystod gwyliau haf yr ysgolion? OAQ(5)0063(EDU)

**3.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y consortiwm addysg ar gyfer ardal Abertawe? OAQ(5)0061(EDU)

**4.** Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Nhorfaen? OAQ(5)0073(EDU)

**5.** Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi plant ysgol yn ystod gwyliau'r haf? OAQ(5)0077(EDU)

**6.** Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ymgysylltiad disgyblion â'r system addysg? OAQ(5)0069(EDU)

**7.** Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif? OAQ(5)0070(EDU)

**8.** Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pryd y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn cyhoeddi ei chynlluniau, yn unol ag argymhelliad Adolygiad Diamond, i ysgogi graddedigion i weithio yng Nghymru, neu ddychwelyd i weithio yng Nghymru? OAQ(5)0068(EDU)

**9.** David Rees (Aberafan): Pa gynnydd sy'n cael ei wneud ynghylch cyflwyno cwricwlwm gwyddor cyfrifiaduron newydd? OAQ(5)0065(EDU)

**10.** Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau i wella cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru? OAQ(5)0064(EDU)

**11.** Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ei blaenoriaethau ar wariant addysg yn 2017? OAQ(5)0071(EDU)

**12.** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n astudio meddygaeth ym mhrifysgolion Cymru? OAQ(5)0066(EDU)

**13.** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddisgwyliadau'r Llywodraeth o ran Awdurdodau Lleol mewn perthynas â gweithredu safonau'r Gymraeg? OAQ(5)0075(EDU)**W**

**14.** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Yn sgil y ffaith bod Her Ysgolion Cymru yn dod i ben, pa fesurau sydd yn eu lle bellach i gynorthwyo ysgolion i gryfhau rhwydweithio a chydweithredu ar arfer da? OAQ(5)0067(EDU)

**15.** Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu'r cymorth addysgol y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i ddisgyblion mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd yn Islwyn? OAQ(5)0074(EDU)